




# Darganfod Y GOGARTH

- Bywyd Gwylt
- Hanes
- Daeareg



## GWYBODAETH GYFFREDINOL

Mae'r rhan fwyaf o'r Gogarth yn Ardal Gadwraeth Arbennig (AGA) oherwydd ei fod yn cynnwys cynefi noedd a rhywogaethau sy'n brin neu dan fygythiad yn Ewrop. Mae'n 'Safl e o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), sy'n arwydd o'i bwysigrwydd cenedlaethol, yn enwedig mewn perthynas â'i ddaeareg a'i fl odau gwylt. Mae'r Gogarth yn Arfordir Treftadaeth hefyd sy'n nodi ei bwysigrwydd yn y tirlun ac sy'n diogelu'n arfordir hwn o werth amgylcheddol a gweledol arbennig rhag datblygiad anymunol. Mae cannoedd o safl eoedd hanesyddol ac mae wyth safl e archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol (Henebion Cofrestredig) yma.

### I gael mwy o wybodaeth am y Gogarth, ewch i:

Ganolfan Ymwelwyr y Parc Gwledig gerllaw gorsaf dramiau'r copa (ar agor bob dydd rhwng mis Mawrth a mis Tachwedd), neu cysylltwch â Swyddfa'r Parc Gwledig ar 01492 874151.

### I gael mwy o wybodaeth am yr ardal, ewch i:

Y Ganolfan Groeso, Llyfrgell  
Mostyn Street, Llandudno, LL30 2RP  
Ffôn: 01492 577577

➡ **Dilynwch Y Côd Cefn Gwlad os gwelwch yn dda**  
Parchwch • Diogelwch • Mwynhewch

## Y Gogarth - cyfl wyniad

Mae'r Gogarth yn benrhyn calchfaen trawiadol i'r gogledd-orllewin o Landudno. Mae'r Gogarth yn 3 cilometr o hyd a 2 cilometr o led, ac mae'n 207 metr uwchben y môr ym Mhen y Gwylfryn. Bu'r Gogarth yn boblogaidd gydag ymwelwyr ers blynnyddoedd lawer - heddiw, mae dros hanner miliwn o ymwelwyr yn ymweld â'r Gogarth bob blwyddyn. Mae'r Gogarth yn cynnwys glaswelltir calchfaen yn bennaf, gyda rhostir, palmentydd calchfaen, prysg a choedlannau a chlogwyni uchel uwchben y môr. Mae'n bwysig oherwydd ei dirwedd, ei fywyd gwylt, ei ddaeareg a'i hanes. Am y rhesymau hyn, mae'r Gogarth bellach yn cael ei reoli fel Parc Gwledig a Gwarchodfa Natur Leol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i gynllunio i roi cyfl wyniad i'r lle rhyfeddol hwn.

## SUT I DDOD YMA

**Gyda bws:** Mae bysus i Ben y Gwylfryn ar y Gogarth yn amrywio yn dibynnu ar y tymor. Am wybodaeth am wasanaethau, ffoniwch Traveline Cymru ar 0870 608 2 608 neu ewch i [www.traveline-cymru.org.uk](http://www.traveline-cymru.org.uk)

Gallwch hefyd ffonio'r Llinell Ymholiadau Cludiant Cyhoeddus ar 01492 575412.

**Gyda thram:** Mae Tramffordd Oes Victoria y Gogarth yn rhedeg o waelod y Gogarth i Ben y Gwylfryn rhwng mis Mawrth a mis Tachwedd. Am wybodaeth, ffoniwch 01492 879306 neu ewch i [www.greatormetramway.co.uk](http://www.greatormetramway.co.uk)

**Gyda char:** Dilynwch yr A470 i ganol Llandudno. Ewch i fyny'r brif stryd, trowch i'r dde yn y gylchfan a dilynwch y ffordd heibio mynediad y pier a The Grand Hotel ar ffordd dollau Cylchdro'r Gogarth. Dilynwch yr arwyddion am Ben y Gwylfryn, lle mae maes parcio talu ac arddangos a Chanolfan Ymwelwyr.

Mae hon yn un o gyfres o lyfrynau teithiau cerdded a gyhoeddir gan Wasanaeth Cefn Gwlad Conwy. I gael rhagor o wybodaeth am y llyfrynau hyn a deithiau cerdded ym Mwrdeistref Sirol Conwy, ewch i: [www.conwy.gov.uk/cefn gwlad](http://www.conwy.gov.uk/cefn gwlad) neu ffoniwch: 01492 575290 / 01492 575200

Ysgrifennwyd a golygwyd gan Tom Gravett, Helen Jowett, Rhona Davies a Barbara Owsianka.

Diolch i Gloddfeydd Copr y Gogarth am y lluniau ar dudalen 11.

Cynhoeddwyd gan  
Cyngor Bwrdeistref Sirol  
Conwy gyda chymorth  
Cyfoeth Naturiol Cymru.



↑ Edrych i lawr Llwybr y Mynachod yn gynnar yn yr haf, rhosod y graig yw'r blodau melyn.



↑ Bwtres Sant Tudno yn dangos yr haenau o galchfaen ar y penrhyn.



↑ Ffossilau'r Gogarth.

# Daeareg

## y Gogarth

Mae'r Gogarth yn cynnwys creigiau calchfaen a ffurfi wyd rhwng 300 a 350 miliwn o fl ynyddoedd yn ôl pan roedd y rhan fwyaf o Ogledd Cymru dan fôr trofannol bas. Mae'r graig wedi'i ffurfio o weddillion creaduriaid y môr oedd yn byw yn ystod y cyfnod hwn, cyfnod y mae daearegwyr yn ei alw'n yr oes Carbonifferaidd. Casglodd sgerbydau a chregyn y creaduriaid hyn ar wely'r môr am fi liynau o fl ynyddoedd a thorrwyd y rhan fwyaf ohonynt i fyny gan donnau a cheryntau'r môr. O dipyn i beth, gwasgwyd y darnau hynny gyda'i gilydd i ffurfio creigiau calchfaen cadarn.

Mae newidiadau i lefel y môr wedi codi a suddo'r calchfaen ar brydiau gan achosi hindreuliad ac erydiad (gwisgo'r graig). Fel roedd y graig yn erydu, darganfuwyd llawer o ffossilau. Heddiw, gellir gweld gweddillion ffossilau llawer o greaduriaid y môr, sy'n nodweddiadol o'r Cyfnod Carbonifferaidd. Y ffossilau mwyaf cyffredin a ellir eu canfod yw braciopodau (sy'n debyg i gregyn cocos heddiw), crinoidau (lili'r môr, anifeiliaid coesog sy'n perthyn i'r seren fôr) a chwrelau sy'n ffurfi o riffi au.

Ar ôl y cyfnod carbonifferaidd cafwyd symudiadau helaeth i'r ddaear o ganlyniad i weithgaredd folcanig, a gywasgodd gramen y ddaear, gan greu cadwyni o fynyddoedd fel yr Alpau. Cafodd y symudiad hwn ei deimlo ar y Gogarth gan blygu haenau o galchfaen.

Os edrychwch chi am haenau o galchfaen ar y pentir, byddwch yn sylwi nad ydynt yn llorweddol bellach, a'u bod ar onglau yn hytrach. Achoswyd y troi neu'r plygu hwn gan y pwysedd enfawr, a grëwyd gan symudiadau'r ddaear ar y pryd hwnnw, gan wneud i'r creigiau gracio, a thorri ac yna, symud oddi wrth ei gilydd yn llorweddol ac yn fertigol (proses sy'n cael ei galw'n 'ffawtio'). Yn aml, mae hyn yn gysylltiedig â gweithgaredd folcanig, wrth i gramen y ddaear wanhau a chaniatáu creigiau tawdd (creigiau poeth, hylifol) a nwyon i ddianc. Wrth i'r deunydd oeri, gadawyd nifer o fwynau yn y ffawtiau (dyffrynnoedd a grëwyd gan symudiadau'r ddaear), gan ffurfi o 'gwythiennau o fwynau'. Ar y Gogarth, y mwynau sydd i'w cael amlaf yw cyfansoddion copr. Cafodd y copr hwn ei ddefnyddio gan ddyn rhwng y cyfnod cynhanes a chanol yr 19 ganrif.

Dros y ddwy fi liwn o fl ynyddoedd diwethaf, cafwyd sawl oes y rhew ym Mhrydain, pan fo'r hinsawdd wedi mynd yn oerach a haenen rew'r Arctig wedi symud tua'r de.

Ar y tir uchel ym mynyddoedd Eryri, datblygodd rhewlifoedd (haenau o rew symudol a ffurfi wyd gan eira cryno) ac roedd y rhan fwyaf o Ogledd Cymru wedi'i orchuddio gan haenau anferth o rew. Gorchuddiwyd y Gogarth gan rewlif yn ystod y rhan fwyaf o'r oes rhew diwethaf, rhwng 60,000 a 12,000 CC.

Fel roedd y llen ia yn symud ar draws y penrhyn, roedd yn crafu'r pridd a'r graig, gan ddadorchuddio craig calchfaen wastad, odditano sydd wedi cael ei erydu dros y 12,000 o fl ynyddoedd diwethaf. Mae dŵr glaw wedi treiddio i'r craciau yn y graig gan doddi'r calchfaen meddal a ffurfio sianeli fertigol dwfn a elwir yn 'greiciau'. Nid yw'r creigiau calchfaen caled o amgylch y "greiciau" wedi cael eu hindreulio mor gyfl ym; gelwir y rhain yn 'clintiau'. Gelwir y ffurfi annau daearegol neu greigiau hyn yn 'balmentydd calchfaen'.

Wrth i'r rhewlifoedd doddi ar ddiwedd oes y rhew, cafodd pridd a chreigiau, a symudwyd o leoedd eraill, eu gadael ar y Gogarth. Gelwir y pridd a'r creigiau hyn yn 'ddriffifol' neu'n 'glogglai'. Gallwch weld y rhan fwyaf o'r clogglai hyn ym Mhenmorfa, ond gallwch weld clog-glai ar hyd a lled y penrhyn a gellir ei adnabod yn rhywydd oherwydd bod planhigion y rhostir yn g allu tyfu mewn pridd dyfnach.

Mae'r clogfeini neu'r meini dyfod sydd wedi'u gadael ledled y penrhyn yn dystiolaeth o rewlifoedd yn toddi.



↑ Maen crwydr rhewlifol.





↑ Golygfa o ogof ar y Gogarth.

## Archaeoleg a Hanes

### y Gogarth

#### Oes y Cerrig (rhwng 100,000 CC a 2,500 CC)


Ar ddechrau Oes y Cerrig (y cyfnod Paleolithig rhwng 100,000 a 10,000 CC) mae'n debyg mai tir sych oedd Bae Conwy. Yn ystod cyfnodau cynhesach, byddai wedi'i orchuddio gyda choedwig ddwys. Gellir gweld gweddillion y coed pan fo'r llanw ar drai o sawl lle yng Nghonwy, Llandudno a Phenmaenmawr. Mae'r darganfyddiad o grafwyr fflint, bwyelli cerrig ac esgryn anifeiliaid wedi'u haddurno wedi dangos bod pobl Oes y Cerrig wedi byw mewn amrywiol ogofau o amgylch y Gogarth.

Mae Ogof Kendrick, ogof fechan ar ochr ddeheuol y Gogarth (ar dir preifat) wedi cael ei gloddio gryn dipyn ers 1886 ac o ganlyniad i hyn, daethpwyd o hyd i anheddau cynnar, o bosib o gyfnod Paleolithig Oes y Cerrig ac yn ddiweddarach cyfnod Neolithig.

Hefyd ar y Gogarth, mae 'Ogof Tudno' oedd yn cynnwys llawer o lygaid meheryn a chregyn gleision tebyg i'r rhai a ganfuwyd yn yr ogofau a feddiannwyd, ond nid oes dyddiad pendant i'r rhain. Cyrhaeddodd pobl Neolithig yr Oesoedd Cerrig diweddarach yn ne Lloegr rhwng tua 4,000 CC a 2,500 CC, gan gyflwyno arferion ffermio a chrochenwaith. Datblygont ffatri fwyelli ym Mhenmaenmawr gan sefydlu llawer o aneddiadau hefyd. Roedd pobl Neolithig yn claddu eu meirw mewn siambrau claddu trawiadol. Gwelir enghraifft o siambr neu 'gromlech' ar y Gogarth, mewn cae islaw'r orsaf dramia hanner ffordd.



↑ Eglwys Tudno Sant.



↑ Yn dangos bywyd pentref yn yr Oes Efydd. (Lluniau a gynhwysir mewn arddangosiad ym Mwyngloddfeydd Copr y Gogarth).

#### Yr Oes Efydd (rhwng 2,500 CC a 500 CC)

Tua 2,500 CC, cyrhaeddodd pobl oedd yn gwybod sut i wneud offer metel ym Mhrydain. Mae efydd, y metel a ddefnyddiwyd yn gymysgedd o gopr, tun a deunyddiau eraill. Yn yr Oes Efydd y byddai'r Gogarth a'i fwynau llawn copr wedi bod yn arwyddocaol i'r rheiny oedd yn cydnabod y cyfoeth posib hwn. Mae archwiliadau yn ystod y 15 mlynedd diwethaf, ynghyd â thystiolaeth wyddonol, wedi dangos bod Mwyngloddiau Copr y Gogarth wedi'u defnyddio am y tro cyntaf dros 3,500 o flynyddoedd yn ôl yn ystod yr Oes Efydd. Erbyn hyn, maent yn cael eu cydnabod fel mwyngloddiau mwyaf yr Oes Efydd yng Ngorllewin Ewrop, ac o bosib yn y byd. Offer sylfaenol y mwyngloddwyr cynhanesyddol oedd morthwylion cerrig, esgryn anifeiliaid a cheibiau corn carw. Gallwch weld rhai o'r hen lefydd gweithio, a dod o hyd i fwy o wybodaeth am fywyd yn yr Oes Efydd ar y Gogarth drwy ymweld â Mwyngloddiau'r Gogarth, a agorwyd i'r cyhoedd ym 1991.

Heblaw am fwyngloddio, roedd pobl yr Oes Efydd yn ffermio, yn hela ac yn pysgota. Gellir gweld tystiolaeth o'r cytiau crwn lle roeddent yn byw ar y Gogarth hyd heddiw.



↑ Pen Dinas.

#### Yr Oes Haearn (rhwng 550 CC a 43 AD)

Cyrhaeddodd pobl yr Oes Haearn ym Mhrydain o ardal Hallstatt (Awstria) yn yr Alpau tua 550 CC. Gwasgaront i'r tir oddi ar arfordir dwyreiniol Lloegr gan adeiladu ffermydd a chreu pentrefi bychain. Yn ystod cyfnodau ansicr, bu pobl yr Oes Haearn yn adeiladu bryngaerau, neu bentrefi wedi'u hamddiffyn. Gellir gweld un fryngaer o'r fath ar y Gogarth, ar y bryn a elwir yn Pen Dinas, sydd uwchben Llandudno. Defnyddiodd y bobl y clogwyni serth y bryn fel amddiffyniad naturiol.



**Allwedd Key**

-  Parc Gwledig Country Park
-  Môr Sea
-  Tywod Sand
-  Coed Trees
-  Casau Fields
-  Adolladau Buildings
-  Ffordd Roads
-  Trac Track
-  Tramfordd Tramway
-  Car Cebi Cable Car
-  Canolfan Ymwelwyr Visitor Centre
-  Toileddau Toilets
-  Safleoedd Picnic Picnic Sites
-  Lluoeth Refresments
-  Ffôn Argyfwng Emergency Telephone
-  Parcio Parking



© Hawffrant y Goron. Ceddwr pob hawl:  
 Cyngor Bwrdestrref Sirol Conwy 100023380, 2013  
 © Crown copyright. All rights reserved.  
 Conwy County Borough Council 100023380, 2013

**LLANDUDNO**



## Cyfnod y Rhufeiniaid (rhwng 43 AD a 410 AD)

Er mai'r Rhufeiniaid oedd yn rheoli iseldiroedd Prydain ychydig ar ôl yr ymosodiad Claudian yn 43 AD, cymrodd ychydig o amser i'r Rhufeiniaid dreiddio i ucheldiroedd Cymru. Ychydig iawn o dystiolaeth sydd ar gael i ddangos bod y Rhufeiniaid wedi dod i gysylltiad â phreswylwyr y Gogarth ac ni ddaethpwyd o hyd i weddillion anheddiad Rhufeinig.

Fodd bynnag, daethpwyd o hyd i ddau gelc arian Rhufeinig ar ddechrau'r 20fed ganrif. Darganfuwyd y casgliad cyntaf o arian Rhufeinig yn ystod adeiladu Mostyn Broadway, Llandudno ym 1907, roedd y rhan fwyaf o'r arian wedi'i wneud ym Mhrydain.



Darganfuwyd yr ail gasgliad ar Drwyn y Fuwch, yn ymyl yr un ffordd, tua hanner milltir tua'r dwyrain o'r darganfyddiad cyntaf.

Er nad oes unrhyw dystiolaeth uniongyrchol bod y Rhufeiniaid wedi defnyddio Mwyngloddiau Copr y Gogarth, mae'r ffaith mai cyfoeth mwynau Prydain oedd un o'r rhesymau tu ôl i'r ymosodiad yn gwneud hynny'n bosibl.

Gadawodd y Rhufeiniaid Brydain tua 410 AD, ac am sawl cenhedlaeth, mae'r cofnodion hanesyddol yn brin iawn.



↑ Adfeilion yw'r cyfan sydd ar ôl o Balas yr Esgob.

## Cyfnodau diweddarach (rhwng 410 AD a 1850 AD) Adeiladau hanesyddol

Tua'r 6ed ganrif, daeth Tudno, cenhadwr Cristnogol Cymraeg i'r Gogarth. Adeiladodd eglwys gyntaf yr ardal, o bren mae'n debyg, ac adeiladwyd adeilad o gerrig yn ei lle yn y 12fed ganrif. Enwyd yr eglwys ar ôl Tudno, a wnaed yn sant i gydnabod ei waith da. Estynnwyd Eglwys Tudno Sant yn y 15fed ganrif, ond aeth yn adfail yn y 19eg ganrif, ac yn y diwedd, chwythwyd y to oddi ar yr adeilad mewn gwyntoedd mawr. Adferwyd yr eglwys ym 1855 ac fe'i defnyddiwyd ers hynny.

Adeilad arall o ddiddordeb hanesyddol a welir ar y Gogarth yw Abaty'r Gogarth, neu, yn fwy cywir, hen Blasty'r Esgob. Mae'n sefyll ger ymyl y creigiau sy'n edrych dros Fae Conwy, ar yr ochr orllewinol. Mae'n debyg i'r adeilad gael ei adeiladu gan yr Esgob Anian tuag at ddiwedd y 13eg ganrif. Efallai bod y palas wedi bod yn anrheg gan Edward I ar ôl i Anian fedyddio Tywysog Cyntaf Cymru. Llosgwyd yr adeilad yn ulw gan Owain Glyndŵr (a arweiniodd gwrthryfel y Cymru yn erbyn y Saeson) ar ddechrau'r 15fed ganrif. Mae Abaty'r Gogarth ar dir preifat ar hyn o bryd.

## Ffermio

Roedd ffermwyr ar y Gogarth yn aredig y tir o amgylch Pen y Gwylfryn. Gellir gweld olion y ffermio canoloesol hwn hyd heddiw gyda marciau'r grwn a rhych a thystiolaeth o gytiau hir. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn yr ardal uwchben eglwys Tudno Sant.

## Y Llychlynwyr

Mae dylanwad y Llychlynwyr hefyd yn amlwg ar y Gogarth. Mae hyn yn arbennig o wir am y gair "Orme" (sef y gair Saesneg am y Gogarth) gan y credir i'r gair ddod o'r hen eiriau Norwyaidd 'horma heva' sy'n golygu 'draig' neu 'anghenfi l y môr'. Hefyd, mae arian a ddarganfuwyd yn ymyl Eglwys Tudno Sant, a oedd yn cynnwys arian King Cnut (Brenin y Llychlynwyr) yn cadarnhau'r cysylltiad hwn.



↑ Edrych tua Chwarel yr Esgob o ben y gwylfryn.

## Mwyngloddio

Arafodd mwyngloddio ar y Gogarth ar ôl yr Oes Efydd, ac ni ailddechreuwyd mwyngloddio ar raddfa fawr hyd diwedd y 17eg ganrif. Ym 1692 roedd y diwydiant mwyngloddio yn cynnwys chwilio ar hap a mwyngloddio cyfyngedig ar gyfer gwaddodion copr ar yr wyneb. Fel roedd gwaddodion copr ar yr wyneb yn dod i ben, roedd mwyngloddiau dyfnach yn cael eu datblygu. Roedd y prif fwynglawdd yn ymyl gorsaf dramiau hanner ffordd, a gellir gweld siaftiau a thomenni sbwriel (gwastraff o'r mwynglawdd) hyd heddiw. Mae'r siaftiau mwyngloddio yn beryglus iawn, ac ni ddylid mynd i mewn iddynt. Cloddiwyd llawer o 'geuffyrdd (twneli llorwedd) i ddarparu draenio ac awyru. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain dan ddŵr eto bellach ac yn beryglus iawn. Roedd anheddiad yng Nghwlach a Maes y Facrell, yn gartref i'r mwyngloddwyr ac roedd yn un o aneddiadau gwreiddiol ardal Llandudno. Ar ôl i Landudno dyfu fel cyrchfan wyliau, daeth yr ardal mwyngloddio yn llai pwysig.

## Chwareldiaeth

Roedd dwy chwarel gerrig yn bodoli ar y Gogarth yn y gorffennol sef Chwarel Rofft a Chwarel yr Esgob. Dywedwyd bod cerrig o'r Chwarel Esgob wedi'u defnyddio i adeiladu Cob Conwy a Phont Grog Telford yng Nghonwy ym 1826. Cariwyd y cerrig ar y môr o amgylch y Gogarth drwy fae bas sy'n ffurfio rhan o Ogorf Colomennod a elwir yn Porth yr Helyg.



↑ Y Goleudy.

## Rhwng 1850 a 1950

Ym 1862 dechreuodd y goleudy weithio yn uchel ar y clogwyni calchfaen. Ym 1878 cwblhawyd Cylchdro'r Gogarth o amgylch y penrhyn, ac ym 1902, agorwyd y dramffordd.

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, adleoliwyd Ysgol Magnelau Arfordirol y Magnelau Brenhinol o dde Lloegr i Ben Morfa ar y Gogarth. Nid oedd angen newid llawer ar y tir. Roedd angorfa addas i longau targed ac amodau da ar gyfer radio a chanfod cyfeiriad. Yn ogystal â hyn, sefydlwyd radio a chwilolau ym 1940. Ar ddiwedd y rhyfel, symudwyd yr offer oddi yno, a dychwelwyd y tir i Mostyn Estates. Daeth yr adeiladau'n adfeilion, a dymchwelwyd y rhan fwyaf ohonynt yng nghanol y 1950au o dan gynllun adnewyddu. Fodd bynnag, gellir gweld gweddillion y safli eodd gwylio, blychau saethu a lleoliadau gynau yno hyd heddiw ac mae'r tir yn rhan o Barc Gwledig y Gogarth bellach.

Os hoffech ymchwilio i hanes y Gogarth ar droed, ewch i nôl copï o'r llyfryn sy'n dwyn y teitl 'Llwybrau Hanesyddol y Gogarth' o Ganolfan Ymwelwyr y Gogarth neu'r Ganolfan Groeso yn Llandudno.





↑ Rhostir Calchfaen.

## Bywyd gwyllt

### ar y Gogarth

Mae cyfoeth mawr o fywyd gwyllt ar y Gogarth oherwydd yr amrywiaeth o gynefi noedd sydd i'w canfod yma. Mae'r rhain yn amrywio o glogwyni'r môr, y glaswelltir calchfaen, y rhostir a'r coetir. Nid oes ardaloedd mawr o ddyfroedd ffres, ond mae cronfa ddŵr segur a llawn llaid bellach tua'r dwyrain o eglwys Tudno Sant.

### Blodau Gwyllt ar y Gogarth

Mae amrywiaeth enfawr o fl odau gwyllt yn tyfu ar y Gogarth mewn cynefi noedd sy'n amrywio o goetir cysgodol i glogwyni'r môr sy'n agored a heb fawr o bridd. Felly mwynhewch eu harddwch heb amharu arnynt.

Mae craig galchfaen y Gogarth wedi darparu pridd llawn calchfaen dros y rhan fwyaf o'r penrhyn ac mae hyn yn cynnwys glaswelltir o bwysigrwydd cenedlaethol, sy'n llawn glaswelltir byr fel peiswellt defaid.

Ymysg y gwair, mae nifer fawr o flodau gwyllt, gan gynnwys teim gwyllt, crogedyf, salad gwyddlwyn cyffredin, botasen y gog, cor-rosyn cyffredin a blodyn prin o'r enw cor-rosyn lledlwyd. Pan fo'r rhain yn cael eu sathru, mae'r blodau gwyllt yma'n cael eu disodli ganwair mwy garw fel cawnen benwen a meillionen wlanog. Mae cerdded yn yr ardaloedd hyn yn ystod y gwanwyn a dechrau'r haf, yn gallu bod yn bleserus iawn.



↑ Cor-rosyn.

Mae'r palmentydd calchfaen yn cynnwys planhigion diddorol iawn oherwydd bod y greiciau (sianeli dwfn) yn darparu cysgod a lleithder mewn man sych ac agored iawn. Mae hyn yn gadael i blanhigion sy'n hoffi cysgod a ddarganfyddir gan amlaf mewn coetiroedd fel bresych y cŵn a sawl amrywiaeth o redyn, gan gynnwys duegredynen y muriau a'r duegredynen goesddu i dyfu. Mae rhannau moel y galchfaen yn cael eu gorchuddio'n aml gan gennau a mwsogl, ac mae'r glaswelltir o amgylch yn llawn cor-rosyn lledlwyd.



↑ Rhwyddlwyn pigfain, planhigyn a geir mewn glaswelltir calchfaen sy'n brin iawn yn genedlaethol.

Mae ochr clogwyni, lle nad oes anifeiliaid yn pori, yn lle delfrydol ar gyfer planhigion fel bresych gwyllt a caldrist ruddgoch. Mae blodau eraill fel gludlys arfor, clustog Fair, serenyn y gwanwyn a llwylys cyffredin yn tyfu oherwydd dylanwad arfordirol y penrhyn. Mae morlwyau meddygol yn llawn fitamin C ac roeddmorwyr yn ei ddefnyddio yn y gorffennol rhag datblygu'r clefri poeth, clefyd oedd yn gyffredin iawn ar y pryd ac oedd yn deillio o ddiffyg ffrwythau a llyisiau ffres.

Yma ac acw ar y penrhyn, ceir pridd dwfn, o gyfnod y rhewlifoedd, sy'n llawn planhigion rhostir fel grug y mel, grug, eithn Ffrengig, tresgl y moch, briwydd wen a rhwyddlwyn meddygol.

Mae ardaloedd coetir bychan ar lethrau de-ddwyreiniol cysgodol y Gogarth yn cynnwys amrywiaeth o goed fel onnen, masarnen, llwyfen lydanddail, cerddinen wen, pisgwydden ac ywen, gyda haen o lwyni amrywiol fel collen, draenen wen, ysgawen a'r gelynnen.

Mae cyfanswm o 431 math gwahanol o blanhigion, ac mae llawer ohonynt yn brin yn genedlaethol, neu'n anghyffredin, wedi'u cofnodi ar y Gogarth. Fodd bynnag, dim ond 360 o'r rhywogaethau hynny a nodwyd sy'n frodorol i Brydain, cyflwyniadau yw'r gweddill. Mae un planhigyn, creigafal y Gogarth neu 'aeron y Gogarth', yn unigryw i'r Gogarth. Mae mewn perygl oherwydd dyma'r unig le yn y byd lle gellir ei weld. Mae rhwyddlwyn pigfan yn blanhigyn pwysig arall. Gallwch weld y planhigyn yn brin yn genedlaethol hwn mewn glaswelltir calchfaen.

Mae planhigion anffrodorol (planhigion sydd wedi'u cyflwyno) yn fygythiad mawr i'n bywyd gwyllt brodorol, yn ail i golli cynefi noedd.



↑ Gweilch y penwaig.

### Adar y Gogarth

Gellir gweld nifer fawr o wahanol fathau o adar ar ac o amgylch y Gogarth drwy gydol y fl wyddyn. Mae rhai ohonynt yn defnyddio'r penrhyn yn ystod y gwanwyn a'r haf yn unig fel lle i fridio, mae eraill yn aros am ddiwrnod neu ddau pan fyddant yn ymfudo ac mae adar eraill yn treulio'r gaef yn unig yma. Mae tua thri deg dau o adar sy'n preswyllo yma'n barhaol, a phrin iawn maent yn gadael y Gogarth, os o gwbl.

Mae'r adar sy'n bridio ar y Gogarth yn dibynnu ar yr amrywiol gynefi noedd a ddarganfyddir yma. Er enghraifft, mae clogwyni'r môr yn llawn nythod bridio adar y môr fel y gvylog, llurs, gwylan goesddu, mulfran ac aderyn drycin y graig.



↑ Brân goesgoc, aelod prin o deulu'r frân a geir yn aml mewn ardaloedd creigiog anghysbell.

Mae tinwen y garn, sy'n cyrraedd o Ogledd Affrica yn y gwanwyn yn nythu ymysg y creigiau a'r waliau ac yn bwydo ar bryfaid yn y glaswelltir byr. Gellir gweld llinosiaid ac ehedyddion yn y glaswelltir calchfaen, ac mae'r clochdar y cerrig ac ehedydd y traeth yn dod o hyd i loches ar gyfer nythu yn y rhostir. Mae preswylwyr eraill yn cynnwys y gigfran, brân goesgoc, tylluan bach a'r hebog tramor sy'n preswylu yn y clogwyni mwy anghysbell.

Yn ystod y gwanwyn, mae sawl math o adar yn ymfudo, gan deithio tua'r gogledd am gannoedd, a miloedd o filltiroedd hyd yn oed, i gyrraedd eu mannau bridio. Maent yn ailadrodd hyn tua'r de bob hydref. Mae rhai o'r adar ymfudol hyn yn treulio cyfnodau byr ar y Gogarth, gan adennill eu cryfder ar gyfer parhau â'u taith. Gellir gweld adar fel cwtiad aur, hutan y mynydd, mwyalchen y mynydd, siglen felen a creciau'r eithin yn ystod cyfnodau fel hyn.

Yn ystod y gaef mae llawer o adar yn cyrraedd o ogledd Ewrop a'r Arctig, fel y breision yr eira deniadol sy'n chwilio am hadau ar y ddaear, sydd fel arfer heb frigo, a'r tingoch du.

Yn aml, gwelir cwtiad y traeth a'r pibydd coesgoc, dau fath o adar hirgoes, yn bwydo ar y traethlinau creigiog, ac mae'r trochydd gyddfogoch, hwyaden ddanheddog, yr hwyaden frongoch a'r gwyach fawr gopog yn deifi o am bysgod.

Yr adar mwyaf cyffredin ar y Gogarth yw gwylan y penwaig a'r jac-y-do sydd wedi gallu addasu i fywdo oddi ar ein gwastraff. Am y rheswm hwn, maent wedi gallu symud i fyw i Landudno lle maent yn gallu goroesi'r un mor dda.

## Pryfaid a Mamaliaid

Mae'r amrywiaeth enfawr o blanhigion blodeuol ar y Gogarth yn darparu bwyd ar gyfer sawl math o bryfaid, yn enwedig nifer fawr o löynnod byw a gwyfynod a ellir eu gweld yn ystod y gwanwyn a'r haf.

Mae'r amrywiaeth yma o blanhigion blodeuol yma yn golygu bod y glaswelltir calchfaen yn llawn amrywiaeth enfawr o bryfaid. Mae chwe math o löynnod byw a gwyfynod prin yn cynnwys y gwyfynod ton sidan a'r gwyfynod pluog marddanhadlen, ac isrywogaethau o löynnod byw fel iâr fach y graig a'r glesyn cyffredin sydd i'w gweld ar y Gogarth yn unig.

Nid yw glöynnod byw yn hedfanwyr cryf ac maent yn dueddol o fod yn fwyaf gweithgar mewn lleoedd cysgodol neu yn ystod tywydd gostegol a heulog. Mae gwyfynod fel arfer yn hedfan yn ystod y cyfnos a drwy'r nos a gellir eu gweld lle bynnag fo goleuadau.



↑ Nid yw'r glöyn byw glesyn serenog prin hwn i'w gael yn unman heblaw'r Gogarth.

## Gwelwyd y glöynnod byw a ganlyn yn rheolaidd ar y Gogarth.

Gwibiwr mawr	Mantell paun
Gwyn mawr	Mantell garpiog
Gwyn bach	Britheg werdd
Glesyn serenog	Gweirlöyn brych
Argws brown	Llwyd y fagwyr
Glesyn cyffredin	Gweirlöyn llwyd
Mantell goch	Llwyd bach y ddôl
Mantell dramor	Gweirlöyn y ddôl
Trilliw bach	Gweirlöyn bach y waun

Mae cyfanswm o 24 math o löyn byw wedi'i gofnodi ar y Gogarth.



↑ Geifr y Gogarth

Y mamal a welwyd fwyaf ar y Gogarth yw'r ddfad gyffredin, ac mae eu cysylltiad gyda phobl wedi helpu i greu tirwedd bresennol y Gogarth. Mae mamaliaid eraill yn cynnwys cwningod, 'ystlumed pedol lleiaf, llwynogod, llygod, llygod y dŵr, tyrchod daear, draenogod a gwiwerod llwyd.

Gellir dadlau mai'r mamaliaid mwyaf trawiadol ar y Gogarth yw'r geifr gwyllt gyda'u cotiau gwyn, hirfl ew a'u cyrn nodedig. Geifr Cashmir yw'r rhain. Mae'r gyr yn ddisgynyddion i bâr o eifr o'r Windsor Royal Herd, a oedd yn eiddo i'r Uwch Gadfridog Syr Savage Mostyn tua 1880. Rhyddhawyd y gyr ar y Gogarth 20 mlynedd yn ddiweddarach, ac mae'r geifr wedi bod yno ers hynny. Maent yn bwydo gan amlaf ar eithin, mieri a draenen wen. Drwy bori ar y prif fathau hyn o blanhigion, mae'n gadael i flodau gwyllt llai cystadleuol i dyfu ar y Gogarth, ac oherwydd eu gallu i ddringo, gall geifr bori mewn rhannau lle nad yw'r defaid yn gallu eu cyrraedd.

Mae cynnydd mawr ym mhoblogaeth geifr y Gogarth wedi golygu bod angen eu rheoli. Mae hyn yn cynnwys adleoli gyr bach i gynefi noedd tebyg mewn rhannau eraill o'r DU ar gyfer pori cadwraethol. Yn ystod y gwanwyn a'r haf, efallai y byddwch ddigon ffodus i weld morloi llwyd ac weithiau dolffi niaid a llamidyddion yn nofi o yn y môr.

Os hoffech ymchwilio i fywyd gwyllt y Gogarth, ewch i nôl copi o'r llyfryn sy'n dwyn y teitl 'Llwybrau Natur y Gogarth' o Ganolfan Ymwelwyr y Gogarth neu'r Ganolfan Groeso yn Llandudno.